



**Cyfoeth
Naturiol**
Cymru
**Natural
Resources**
Wales

Data a gwybodaeth ecolegol yr esemptir rhag eu rhyddhau'n gyffredinol o dan reoliadau RhGA/RhG

Dogfen canllawiau gweithredol

Cynnwys

Cynnwys	2
Acronymau a ddefnyddir yn y ddogfen hon.....	3
1. Cyflwyniad	4
1.1. Cefndir	4
1.1.1. Ynglŷn â beth y mae'r canllawiau?	4
1.1.2. Pam y mae angen y canllawiau hyn?	4
1.1.3. Sut y mae'r canllawiau wedi cael eu hysgrifennu?	4
1.2. Pam y mae rhai mathau o ddata ecolegol wedi'u hesemptio rhag eu rhyddhau'n gyffredinol.....	5
1.3. Mathau o ddata a gwybodaeth ecolegol yr esemptir rhag eu rhyddhau'n gyffredinol.....	5
2. Data Ecolegol yr Esemptir Rhag eu Rhyddhau'n Gyffredinol	6
2.1. Adnabod data ecolegol a esemptir	6
2.1.1. Enghreifftiau o ddata am y Cudyll Bach yr esemptir rhag eu rhyddhau'n gyffredinol.....	6
2.1.2. Enghreifftiau o ddata am y Cudyll Bach na esemptir rhag eu rhyddhau'n gyffredinol.....	6
Atodiad A: Rhywogaethau a Chynefinoedd yr Esemptir Rhag eu Rhyddhau'n Gyffredinol (ERhRhG).....	7
Atodiad B: Ystlumod a Chreaduriaid Morfilaidd yr Esemptir Rhag eu Rhyddhau'n Gyffredinol (ERhRhG).....	13

Acronymau a ddefnyddir yn y ddogfen hon

Acronym	Ystyr
MAW:	Mynediad at wybodaeth
CCG:	Cyngor Cefn Gwlad
RhPDM:	Rheoli Perygl Damweiniau Mawr
DDD:	Deddf Diogelu Data
AA(C):	Asiantaeth yr Amgylchedd (Cymru)
ERhRhG	Esemptir Rhag eu Rhyddhau'n Gyffredinol
RhGA:	Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol
CC(C):	Comisiwn Coedwigaeth (Cymru)
RhG:	Rhyddid Gwybodaeth
SCG:	Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
CBCN:	Cydbwyllgor Cadwraeth Natur
NE:	Natural England
CNC:	Cyfoeth Naturiol Cymru
PLIC:	Prawf Lles y Cyhoedd
ACA:	Ardal Cadwraeth Arbennig
AGA:	Ardal Gwarchodaeth Arbennig
SoDdGA:	Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig

1. Cyflwyniad

1.1. Cefndir

Mae'r canllawiau hyn wedi cael eu cynhyrchu ar gyfer holl staff CNC a'r rhai hynny sy'n rheoli data ar ein rhan sy'n ymwneud â chasglu, storio, rheoli a dosbarthu data a gwybodaeth ecolegol sy'n syrthio oddi mewn i ffiniau Cymru.

1.1.1. Ynglŷn â beth y mae'r canllawiau?

Mae'r canllawiau hyn yn ymwneud â data a gwybodaeth ecolegol y tybiwyd eu bod wedi'u hesemptio rhag eu rhyddhau'n gyffredinol (ERhRhG) o dan Reoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol (RhGA) a Rhyddid Gwybodaeth (RhG). Hynny yw, data a gwybodaeth am leoliad rhywogaethau a chynefinoedd a allai arwain, o bosibl, at eu niweidio pe byddai'r data ar gael i'r cyhoedd. Mae'r canllawiau hyn yn berthnasol i ddata ynghylch unrhyw rywogaethau neu gynefinoedd a gofnodir yng Nghymru. Bydd gan wledydd eraill eu cyfyngiadau eu hunain y bydd angen eu dilyn.

D.S. – Gellir cyfyngu data a gwybodaeth yn ogystal drwy fecanweithiau deddfwriaethol amrywiol, e.e. Deddf Diogelu Data (1998) a rhaid i ni, wrth gwrs, gydymffurfio â'r cyfyngiadau hyn yn ogystal.

1.1.2. Pam y mae angen y canllawiau hyn?

Mae'r canllawiau hyn wedi cael eu cynhyrchu er mwyn datblygu dull cyson a dull y gellir ei amddiffyn drwy CNC wrth ryddhau, neu atal rhyddhau, data a gwybodaeth ecolegol mewn perthynas â rhywogaethau neu gynefinoedd sy'n syrthio oddi mewn i ffiniau Cymru.

1.1.3. Sut y mae'r canllawiau hyn wedi cael eu hysgrifennu?

Mae'r ddogfen hon yn casglu ynghyd y cyngor a'r canllawiau perthnasol o'r sefydliadau blaenorol, sef Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Comisiwn Coedwigaeth ac Asiantaeth yr Amgylchedd. Cafodd y rhestr o nodweddion ecolegol yr esemptir rhag eu rhyddhau'n gyffredinol a'r raddfa y mae'r cyfyngiad yn gymwys arnynt ([Atodiad A](#)) ei chreu yn wreiddiol gan Dîm Gwybodaeth Amgylcheddol y CCG, mewn ymgynghoriad â'r arbenigwyr rhywogaethau a chynefinoedd perthnasol yn ogystal â thimoedd rhanbarthol a rhanddeiliaid eraill. Cafodd y rhestr hon ei defnyddio gan y CC yn ogystal, ac mae wedi cael ei hadolygu yn erbyn rhestr o rywogaethau codedig AA.

1.2. Pam y mae rhai mathau o ddata ecolegol wedi'u hesemptio rhag eu rhyddhau'n gyffredinol

Mae Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol (2004) yn rhoi dyletswydd gyfreithiol gyffredinol ar Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) i roi mynediad rhydd i'w ddata amgylcheddol. Fodd bynnag, mae gan CNC yr hawl i atal data o dan yr eithriad a ddisgrifiwyd yn Rheoliad 12.(5)(g) os '*byddai datgelu yn effeithio'n niweidiol ar warchod yr amgylchedd y mae'r wybodaeth yn perthyn iddo*'.

Mae CNC yn cydnabod bod rhai rhywogaethau, a nifer bach o nodweddion bioamrywiaeth eraill, yn arbennig o agored i niwed, aflonyddwch neu ecsbloetio masnachol os yw gwybodaeth fanwl am eu lleoliad yn cael ei rhyddhau i'r cyhoedd. Gallai data a gwybodaeth fanwl y gellid eu defnyddio i adnabod lleoliad rhywogaethau a chynefinoedd perthnasol, o bosibl, gael eu camddefnyddio gan rai unigolion, naill ai'n fwriadol neu'n ddiafrybod, mewn modd a allai achosi niwed i'r nodweddion hynny.

Mae mathau posibl o niwed yn cynnwys casglu, aflonyddu neu weithgaredd anghyfreithlon. Er enghraifft, petai casglwyr yn dysgu am leoliad nythod y boda tinwyn neu leoliad poblogaethau rhedynen Cilarne, gallai arwain at niwed i'r rhywogaethau hyn. Gall ffotograffwyr darfu ar waliau dyfrgwn, neu gall pobl ddefnyddio'r wybodaeth am leoliad daearau moch daear er mwyn baetio moch daear.

1.3. Mathau o ddata a gwybodaeth ecolegol yr esemptir rhag eu rhyddhau'n gyffredinol

Yn y mwyafrif o achosion, mae rhoi gwybodaeth am rywogaeth neu gynefin yn helpu i warchod y nodwedd honno. Mae gwybod am leoliad nodweddion bioamrywiaeth pwysig yn golygu y gellir cyflwyno mesurau lliniaru os oes cynnig ar gyfer datblygu neu y gellir cyflwyno rheoli cadwraeth briodol.

Y prif faen prawf ar gyfer cynnwys nodwedd yn y rhestr o esemptiadau yw bod yn rhaid iddi fod yn destun ffynhonnell benodol o bwysau sy'n fygythiad iddi, fel y rhai sydd wedi'u nodi yn Adran 1.2. Nid yw prinder felly, na dynodiad cyfreithiol yn ddigon ynddynt eu hunain i gyfiawnhau eu cynnwys, ac mewn gwirionedd nid yw llawer o rywogaethau prin yn cael eu cynnwys.

Mae gan bob rhywogaeth ar y rhestr raddfa ofodol gysylltiedig. Ystyrir bod data a gwybodaeth sy'n is na'r raddfa hon (ar lefel fwy manwl) yn cynyddu'r perygl posibl o niwed i'r nodwedd honno petai ar gael i'r cyhoedd. Credir bod data a gwybodaeth sy'n uwch na'r raddfa ofodol hon (llai manwl gywir, eglurder ehangach) ar lefel lle mae'r perygl o niwed yn dderbyniol.

2. Data Ecolegol yr Esemptir Rhag eu Rhyddhau'n Gyffredinol

2.1. Adnabod data ecolegol a esemptir

Mae data am rywogaethau a chynefinoedd yr esemptir rhag eu rhyddhau'n gyffredinol yng Nghymru yn cael eu disgrifio yn Atodiad A.

Y cam cyntaf yw edrych ar y rhestr i weld a yw'r nodweddion yr ydych yn ymdrin â nhw wedi eu hesemptio rhag eu rhyddhau'n gyffredinol. Os felly, defnyddiwch yr wybodaeth yng ngholofnau 3 a 4 yn [Atodiad A](#) er mwyn penderfynu pa gyfyngiadau penodol sy'n berthnasol. Defnyddiwch yr enghraifft hon ar gyfer y Cudyll Bach fel canllaw:

Enw Gwyddonol	Enw Cyffredin	Pa ran o'r cylch bywyd yr ERhRhG?	Pa fath o ddata yr ERhRhG?	O dan ba raddfa y mae'n ERhRhG?	Beth yw'r cyfiawndad?	
					Pa mor fregus	Bygythiad
<i>Falco columbarius</i>	Cudyll Bach	Bridio	Union lleoliad safleoedd nythu	Is na 10 km sgwâr	Atodlen 1 WCA Atodiad 1 Cyfarwydddeb Adar. Bridiwr prin a chyfyngedig	Aflonyddu

2.1.1. Enghreifftiau o ddata am y Cudyll Bach yr esemptir rhag eu rhyddhau'n gyffredinol

- Lleoliad safleoedd nythu, wedi'i nodi ar fapiau, neu fel cyfesurynnau Lledred a Hydred, yn is na graddfa 10 km sgwâr (h.y. graddfa fwy manwl), unrhyw le yng Nghymru, heblaw lle maen nhw'n nodwedd restredig ar safleoedd dynodedig neu safleoedd â wardeniaid parhaol.
- Lleoliad safleoedd nythu os yw ar ffurf cyfeirnodau grid 4-ffigur neu 6-ffigur, unrhyw le yng Nghymru, heblaw lle maen nhw'n nodwedd restredig ar safleoedd dynodedig neu safleoedd â wardeniaid parhaol.

2.1.2. Enghreifftiau o ddata am y Cudyll Bach na esemptir rhag eu rhyddhau'n gyffredinol

- Lleoliad nyth os yw ar ffurf cyfeirnodau grid 2-ffigur neu ar raddfa gyfartal neu fwy (llai manwl) na 10km sgwâr e.e. ar gyfer sir neu ranbarth cyfan.
- Gwybodaeth am bresenoldeb/absenoldeb y Cudyll Bach ar safle arbennig neu mewn ardal arbennig, ar unrhyw raddfa.
- Cynlluniau rheoli sy'n cyfeirio at weithgareddau a fwriedir i gynyddu poblogaethau'r Cudyll Bach.
- Gwybodaeth gyffredinol am weld y Cudyll Bach, ei ymddygiad a'i ecoleg lle na roddir lleoliadau'r nyth.

D.S.: - 10 x 10 m sgwâr = Cyfeirnod grid 8-ffigur a 2-lythyren e.e. SH65354505

100 x 100 m sgwâr (1 ha) = Cyfeirnod grid 6-ffigur a 2-lythyren e.e. SH653450

1 km sgwâr = Cyfeirnod grid 4-ffigur a 2-lythyren e.e. SH6545

10 km sgwâr = Cyfeirnod grid 2-ffigur a 2-lythyren e.e. SH64

Atodiad A: Rhywogaethau a Chynefinoedd yr Esemptir Rhag eu Rhyddhau'n Gyffredinol (ERhRhG)

Enw Gwyddonol	Enw Cyffredin	Pa ran o'r cylch bywyd yr ERhRhG?	Pa ddata penodol yr ERhRhG?	O dan ba raddfa y mae'n ERhRhG?	Beth yw'r cyfiawnhad?	
					Pa mor fregus	Bygythiad
Uwchblanhigion ac Isblanhigion y tir						
<i>Woodsia alpina</i>	Rhedynen-Woodsia Alpaidd	Pob Un	Union leoliad unigolion a phoblogaethau	Cyfeirnod grid 2 ffigur neu 10 km sgwâr	RDP, Atodlen 8 WCA	Niwed gan ffotograffwyr, casglwyr planhigion, y cyhoedd (yn agos at safleoedd poblogaidd)
<i>Trichomanes speciosum</i>	Rhedynen Cilarne	Sporoffyt (ffurf sy'n cynhyrchu sborau)	Union leoliad unigolion a phoblogaethau	Cyfeirnod grid 2 ffigur neu 10 km sgwâr	RDP, Blaenoriaeth BAP DU, Atodiad II Cyfarwydddeb Cynefinoedd a Rhywogaethau, Atodlen 8 WCA	Niwed gan ffotograffwyr, casglwyr planhigion, y cyhoedd (yn agos at safleoedd poblogaidd)
<i>Woodsia ilvensis</i>	Rhedynen-Woodsia hirgul	Pob Un	Union leoliad unigolion a phoblogaethau	Cyfeirnod grid 2 ffigur neu 10 km sgwâr	RDP, Blaenoriaeth BAP DU, Atodlen 8 WCA	Niwed gan ffotograffwyr, casglwyr planhigion, y cyhoedd (yn agos at safleoedd poblogaidd)
<i>Potentilla rupestris</i>	Pumnaalen y graig	Pob Un	Union leoliad unigolion a phoblogaethau	Cyfeirnod grid 2 ffigur neu 10 km sgwâr	RDP, Atodlen 8 WCA	Niwed gan ffotograffwyr, casglwyr hadau, y cyhoedd (planhigyn deniadol)
<i>Cotoneaster cambricus</i>	Cotoneaster y Gogarth	Pob Un	Union leoliad unigolion a phoblogaethau	Cyfeirnod grid 2 ffigur neu 10 km sgwâr	RDP, Blaenoriaeth BAP DU, Atodlen 8 WCA	Niwed gan ffotograffwyr, casglwyr planhigion, y cyhoedd (yn agos at safleoedd poblogaidd)
Adar						
<i>Recurvirostra avosetta</i>	Cambig	Bridio	Union leoliad safleoedd nythu	Cyfeirnod grid 2 ffigur neu 10 km sgwâr	Atodlen 1 WCA, Atodiad 1 Cyfarwydddeb Adar Bridiwr prin	Aflonyddu a chasglwyr wyau
<i>Tyto alba</i>	Tylluan wen	Bridio	Union leoliad safleoedd nythu	Cyfeirnod grid 2 ffigur neu 10 km sgwâr	Atodlen 1 WCA	Aflonyddu

<i>Panurus biarmicus</i>	Titw barfog	Bridio	Union leoliad safleoedd nythu	Cyfeirnod grid 2 ffigur neu 10 km sgwâr	Atodlen 1 WCA. Bridiwr prin	Aflonyddu
<i>Botaurus stellaris</i>	Aderyn y bwn	Bridio	Union leoliad safleoedd nythu	Cyfeirnod grid 2 ffigur neu 10 km sgwâr	Atodlen 1 WCA, Atodiad 1 Cyfarwyddeb Adar, Blaenoriaeth BAP DU, WAG Adran 42. Ar hyn o bryd wedi dar fod fel rhywogaeth sy'n bridio yng Nghymru, ond gallai ddechrau nythu eto'n fuan	Aflonyddu
<i>Tetrao tetrix</i>	Grugiar ddu	Bridio	Union leoliad manau paru ('lek')	Cyfeirnod grid 2 ffigur neu 10 km sgwâr	Blaenoriaeth BAP DU, WAG Adran 42	Aflonyddu
<i>Cephus grylle</i>	Gwylog ddu	Bridio	Union leoliad safleoedd nythu	Cyfeirnod grid 2 ffigur neu 10 km sgwâr	Bridiwr prin	Aflonyddu
<i>Cettia cetti</i>	Telor Cetti	Bridio	Union leoliad safleoedd nythu	Cyfeirnod grid 2 ffigur neu 10 km sgwâr	Atodlen 1 WCA. Bridiwr prin	Aflonyddu
<i>Pyrrhocorax pyrrhocorax</i>	Brân goesgoch	Bridio a gaeafu	Union leoliad safleoedd nythu a chlwydfannau gaeaf	Cyfeirnod grid 2 ffigur neu 10 km sgwâr	Atodlen 1 WCA, Atodiad 1 Cyfarwyddeb Adar, WAG Adran 74	Aflonyddu a chasglwyr wyau.
<i>Somateria mollissima</i>	Hwyaden fwythblu	Bridio	Union leoliad safleoedd nythu	Cyfeirnod grid 2 ffigur neu 10 km sgwâr	Bridiwr prin	Aflonyddu
<i>Coturnix coturnix</i>	Sofliar	Bridio	Union leoliad safleoedd nythu	Cyfeirnod grid 2 ffigur neu 10 km sgwâr	Bridiwr prin	Aflonyddu
<i>Calidris alpina</i>	Pibydd y mawn	Bridio	Union leoliad safleoedd nythu	Cyfeirnod grid 2 ffigur neu 10 km sgwâr	Bridiwr prin	Aflonyddu
<i>Regulus ignicapillus</i>	Dryw penfflamgoch	Bridio	Union leoliad safleoedd nythu	Cyfeirnod grid 2 ffigur neu 10 km sgwâr	Atodlen 1 WCA. Bridiwr prin	Aflonyddu
<i>Anas querquedula</i>	Hwyaden addfain	Bridio	Union leoliad safleoedd nythu	Cyfeirnod grid 2 ffigur neu 10 km sgwâr	Atodlen 1 WCA Bridiwr prin	Aflonyddu
<i>Accipiter gentilis</i>	Gwalch marthin	Bridio	Union leoliad safleoedd nythu	Cyfeirnod grid 2 ffigur neu 10 km sgwâr	Atodlen 1 WCA	Aflonyddu ac erlid
<i>Circus cyaneus</i>	Boda tinwyn	Bridio a gaeafu	Union leoliad safleoedd nythu a chlwydfannau gaeaf	Cyfeirnod grid 2 ffigur neu 10 km sgwâr	Atodlen 1 WCA, Atodiad 1 Cyfarwyddeb Adar, WAG Adran 42	Aflonyddu ac erlid

<i>Falco subbuteo</i>	Hebog yr ehedydd	Bridio	Union leoliad safleoedd nythu	Cyfeirnod grid 2 ffigur neu 10 km sgwâr	Atodlen 1 WCA. Bridiwr prin	Aflonyddu
<i>Pernis apivorus</i>	Boda'r mêl	Bridio	Presenoldeb parau sy'n bridio ac union leoliad safleoedd nythu	100 km sgwâr	Atodlen 1 WCA Atodiad 1 Cyfarwyddeb Adar. Bridiwr prin	Aflonyddu a chasglwyr wyau
<i>Charadrius dubius</i>	Cwtiad torchog bach	Bridio	Union leoliad safleoedd nythu	Cyfeirnod grid 2 ffigur neu 10 km sgwâr	Atodlen 1 WCA	Aflonyddu
<i>Sterna albifrons</i>	Môr-wennol fechan	Bridio	Union leoliad safleoedd nythu	Cyfeirnod grid 2 ffigur neu 10 km sgwâr	Atodlen 1 WCA Atodiad 1 Cyfarwyddeb Adar. Ar hyn o bryd dim ond un safle nythu yng Nghymru.	Aflonyddu a chasglwyr wyau
<i>Asio otus</i>	Tylluan gorniog	Bridio	Union leoliad safleoedd nythu	Cyfeirnod grid 2 ffigur neu 10 km sgwâr	Bridiwr prin	Aflonyddu
<i>Circus aeruginosus</i>	Boda'r gwerni	Bridio	Union leoliad safleoedd nythu	Cyfeirnod grid 2 ffigur neu 10 km sgwâr	Atodlen 1 WCA Atodiad 1 Cyfarwyddeb Adar. Nid yw'n bridio'n rheolaidd yng Nghymru ar hyn o bryd, ond ceir cofnodion o'r adar hyn yn ystod yr haf o bryd i'w gilydd, gyda phosibilrwydd o fridio yma yn y dyfodol	Aflonyddu a chasglwyr wyau
<i>Falco columbarius</i>	Cudyll Bach	Bridio	Union leoliad safleoedd nythu	Cyfeirnod grid 2 ffigur neu 10 km sgwâr	Atodlen 1 WCA Atodiad 1 Cyfarwyddeb Adar.	Aflonyddu
<i>Pandion haliaetus</i>	Gwalch y pysgod	Bridio	Presenoldeb parau sy'n bridio ac union leoliad safleoedd nythu	Cyfeirnod grid 2 ffigur neu 10 km sgwâr	Atodlen 1 WCA Atodiad 1 Cyfarwyddeb Adar. Cytrefu o'r newydd yn 2004, bridriwr prin.	Aflonyddu a chasglwyr wyau
<i>Falco peregrinus</i>	Hebog tramor	Bridio	Union leoliad safleoedd nythu	Cyfeirnod grid 2 ffigur neu 10 km sgwâr	Atodlen 1 WCA Atodiad 1 Cyfarwyddeb Adar.	Aflonyddu ac erlid
<i>Aythya ferina</i>	Hwyaden bengoch	Bridio	Union leoliad safleoedd nythu	Cyfeirnod grid 2 ffigur neu 10 km sgwâr	Bridiwr prin	Aflonyddu
<i>Milvus milvus</i>	Barcud	Bridio	Union leoliad safleoedd nythu	Cyfeirnod grid 2 ffigur neu 10 km sgwâr	Atodlen 1 WCA Atodiad 1 Cyfarwyddeb Adar.	Aflonyddu a chasglwyr wyau

<i>Sterna dougallii</i>	Môr-wennol wridog	Bridio	Union leoliad safleoedd nythu	Cyfeirnod grid 2 ffigur neu 10 km sgwâr	Atodlen 1 WCA, Atodiad 1 Cyfarwyddeb Adar, Blaenoriaeth BAP DU, WAG Adran 42. Ar hyn o bryd dim ond 1 safle nythu yng Nghymru	Aflonyddu a chasglwyr wyau
<i>Asio flammeus</i>	Tylluan glustiog	Bridio	Union leoliad safleoedd nythu	Cyfeirnod grid 2 ffigur neu 10 km sgwâr	Atodiad 1 Cyfarwyddeb Adar Bridiwr prin	Aflonyddu
<i>Porzana porzana</i>	Rhegen fraith	Bridio	Union leoliad safleoedd nythu	Cyfeirnod grid 2 ffigur neu 10 km sgwâr	Atodlen 1 WCA Atodiad 1 Cyfarwyddeb Adar. Bridiwr prin	Aflonyddu
<i>Carduelis flavirostris</i>	Llinos y mynydd	Bridio	Union leoliad safleoedd nythu	Cyfeirnod grid 2 ffigur neu 10 km sgwâr	WAG Adran 42 Bridiwr prin	Aflonyddu
<i>Numenius phaeopus</i>	Coegylfinir	Bridio	Union leoliad safleoedd nythu	Cyfeirnod grid 2 ffigur neu 10 km sgwâr	Atodlen 1 WCA. Bridiwr prin	Aflonyddu
<i>Anas penelope</i>	Chwiwell	Bridio	Union leoliad safleoedd nythu	Cyfeirnod grid 2 ffigur neu 10 km sgwâr	Bridiwr Prin (<30 pâr)	Aflonyddu
Creaduriaid asgwrn cefn eraill y tir						
Pob rhywogaeth ystum ¹	Pob rhywogaeth ystum	Pob Un	Union leoliad clwydfannau ar eiddo preifat. Lleoliad safleoedd clwydo tanddaearol. Enwau clwydfannau sy'n datgelu union gyfeiriadau neu gyfeiriadau personol	Cyfeirnod grid 4 ffigur neu 1 km sgwâr	Atodlen 5 WCA, Atodiad II a IV Cyfarwyddeb Cynefinoedd a Rhywogaethau, blaenoriaeth BAP DU	Aflonyddu ar ystumod a dieithrio'r tirfeddiannwr
<i>Meles meles</i>	Mochyn daear	Pob Un	Union leoliad y daearau	Cyfeirnod grid 4 ffigur neu 1 km sgwâr	Deddf Moch Daear 1992	Baetio a chloddio am foch daear
<i>Lutra lutra</i>	Dyfrgi	Pob Un	Union leoliad y gwatau	Cyfeirnod grid 4 ffigur neu 1 km sgwâr	Atodlen 5 WCA, Atodiad II a IV Cyfarwyddeb Cynefinoedd a Rhywogaethau, blaenoriaeth BAP DU	Aflonyddu
Ceaduriaid di-asgwrn-cefn ar y tir ac mewn dŵr croyw						

¹Gweler [Atodiad B](#) am restr o rywogaethau o ystumod sydd un ai i'w cael yn y DU neu grwydrol.

<i>Margaritifera margaritifera</i>	Misglen dŵr croyw	Lawn dwf	Union leoliad a chofnodion o niferoedd (dwysedd) y rhywogaeth.	Cyfeirnod grid 2 ffigur neu 10 km sgwâr	Blaenoriaeth BAP DU, Atodiad II Cyfarwyddeb Cynefinoedd a Rhywogaethau, Atodiad I Cytundeb Berne, Atodlen 5 WCA. Poblogaethau eisoes ar fin darfod.	Mae pysgota perl anghyfreithlon yn lladd y misglod yn ddieithriad.
Rhywogaethau a chynefinoedd dŵr croyw						
Dim						
Cynefinoedd Tirol						
Dim						
Rhywogaethau a chynefinoedd morol						
Pob creadur morfilaidd ²	Pob creadur morfilaidd	Geni/magu	Union leoliad benywod llawn dwf gyda lloi.	Cyfeirnod grid 2 ffigur neu 10 km sgwâr	WAG Adran 42, Atodiad II a IV Cyfarwyddeb Cynefinoedd a Rhywogaethau, rhywogaethau blaenoriaeth OSPAR. Rhywogaethau BAP. Mae llamhidyddion yn rhywogaeth sy'n cael blaenoriaeth o dan OSPAR. Gall y creaduriaid hyn gael eu hafonyddu'n rhwydd iawn yn ystod y cyfnod hwn o'u bywyd.	Aflonyddu gan weithgareddau hamdden.
<i>Palinurus elephas</i>	Cimwch yr afon	Pob Un	Union leoliad a chofnodion o niferoedd (dwysedd) y rhywogaeth.	Cyfeirnod grid 2 ffigur neu 10 km sgwâr	BAP DU, WAG Adran 42 Dirywio yng Nghymru ers 1980 (Hunter 1999)	Pysgota masnachol a hamdden yn bygwth stociau.
<i>Pecten maximus</i>	Cragen fylchog	Pob Un	Union leoliad a chofnodion o niferoedd (dwysedd) y rhywogaeth.	Cyfeirnod grid 2 ffigur neu 10 km sgwâr	Gall y cynefin lle gwelir y gragen fylchog fod yn gynefin BAP ac ar Atodiad 1 Cyfarwyddeb Cynefinoedd a Rhywogaethau	Pysgota masnachol yn niweidio gwely'r môr.
<i>Ostrea edulis</i>	Wystrysen	Pob Un	Union leoliad a chofnodion o niferoedd (dwysedd) y rhywogaeth.	Cyfeirnod grid 2 ffigur neu 10 km sgwâr	BAP DU, WAG Adran 42	Pysgota masnachol a hamdden yn bygwth stociau.
IMX.Ost (cod biotop)	Cynefin gwely wystrys	Amh	Union leoliad y biotop a chofnodion niferoedd (dwysedd) y rhywogaeth.	20 km sgwâr	BAP DU, WAG Adran 42	Pysgota masnachol a hamdden yn bygwth stociau.
<i>Aequipecten opercularis</i>	Cragen y frenhines	Pob Un	Union leoliad a chofnodion o niferoedd (dwysedd) y rhywogaeth.	Cyfeirnod grid 2 ffigur neu 10 km sgwâr	Gall y cynefin lle gwelir cragen y frenhines fod yn gynefin BAP ac ar Atodiad I Cyfarwyddeb Cynefinoedd a Rhywogaethau.	Pysgota masnachol yn niweidio gwely'r môr.

²Gweler [Atodiad B](#) am restr o rywogaethau o greaduriaid morfilaidd sydd un ai i'w cael yn y DU neu'n grwydrol.

<i>Hippocampus guttulatus</i>	Morfarch	Pob Un	Union leoliad a chofnodion o niferoedd (dwysedd) y rhywogaeth.	Cyfeirnod grid 2 ffigur neu 10 km sgwâr	BAP DU WAG Adran 42, Rhywogaeth sy'n flaenoriaeth yng nghytundebau Berne, CITES, OSPAR. Ychydig iawn a gofnodwyd yn nyfroedd Cymru, ond gall y niferoedd godi wrth i dymheredd y môr godi.	Casglu ar gyfer acwaria.
<i>Hippocampus hippocampus</i>	Morfarch trwyn byr	Pob Un	Union leoliad a chofnodion o niferoedd (dwysedd) y rhywogaeth.	Cyfeirnod grid 2 ffigur neu 10 km sgwâr	BAP DU, Rhywogaeth sy'n flaenoriaeth yng nghytundebau Berne, CITES, OSPAR. Ar hyn o bryd nid oes cofnodion yng Nghymru ond gallai gynyddu wrth i dymheredd y môr godi.	Casglu ar gyfer acwaria.
Nodweddion daearegol						
Dim						



Atodiad B: Ystlumod a Chreaduriaid Morfilaidd yr Esemptir Rhag eu Rhyddhau'n Gyffredinol (ERhRhG)

Yn ychwanegol at Atodiad A, mae hon yn rhestr o rywogaethau ystlumod a chreaduriaid morfilaidd y gwyddys eu bod i'w cael yn y DU neu'n rhywogaethau crwydrol. Sylwer nad yw'r rhestrau yn y canllaw hwn yn gyflawn ac y bydd rhywogaethau eraill o ystlumod neu greaduriaid morfilaidd crwydrol neu nad ydynt ar y rhestr hefyd yn cael eu dosbarthu fel wedi eu Hesemptio Rhag eu Rhyddhau'n Gyffredinol dan y canllaw hwn.

RHYWOGAETHAU YSTLUMOD – NID YW HON YN RHESTR GYFLAWN OHERWYDD Y GALL RHYWOGAETHAU CRWYDROL ERAILL FOD YN BRESENNOL, FELLY DYLAI'R RHAIN HEFYD GAEL EU DOSBARTHU FEL RHYWOGAETHAU SENSITIF.	
Enw Gwyddonol	Enw Cyffredin
<i>Myotis alcathoe</i>	Ystlum Barfog Alcatheo
<i>Barbastella barbastellus</i>	Ystlum Du
<i>Myotis bechsteinii</i>	Ystlum Bechstein
<i>Myotis brandtii</i>	Ystlum Brandt
<i>Plecotus auritus</i>	Ystlum Hirglust
<i>Pipistrellus pipistrellus</i>	Ystlum Lleiaf
<i>Myotis daubentonii</i>	Ystlum Daubenton
<i>Rhinolophus ferrumequinum</i>	Ystlum Pedol Mwyaf
<i>Plecotus austriacus</i>	Ystlum Hirglust Llwyd
<i>Nyctalus leisleri</i>	Ystlum Leisler
<i>Rhinolophus hipposideros</i>	Ystlum Pedol Lleiaf
<i>Pipistrellus nathusii</i>	Ystlum lleiaf nathusius
<i>Myotis nattereri</i>	Ystlum Natterer
<i>Nyctalus noctula</i>	Ystlum Mawr
<i>Eptesicus serotinus</i>	Ystlum Adain-Lydan
<i>Pipistrellus pygmaeus</i>	Ystlum Lleiaf Meinlais
<i>Myotis mystacinus</i>	Ystlum Barfog
<i>Ystlumod crwydrol posibl</i>	
<i>Myotis myotis</i>	Ystlum Clustlydan Mawr

Gweler y dudalen nesaf am restr o greaduriaid morfilaidd wedi'u Hesemptio Rhag eu Rhyddhau'n Gyffredinol.

CREADURIAID MORFILAIDD – NID YW HON YN RHESTR GYFLAWN OHERWYDD Y GALL RHYWOGAETHAU CRWYDROL ERAILL FOD YN BRESENNOL, FELLY DYLAI'R RHAIN HEFYD GAEL EU DOSBARTHU FEL RHYWOGAETHAU SENSITIF.

Enw Gwyddonol	Enw Cyffredin
<i>Tursiops truncatus</i>	Dolffin trwyn potel
<i>Balaenoptera physalus</i>	Morfil asgellog llwyd
<i>Phocoena phocoena</i>	Llamhidydd
<i>Megaptera novaeangliae</i>	Morfil cefngrwm
<i>Orcinus orca</i>	Lleiddiad
<i>Globicephala melaena / Globicephala melas</i>	Morfil pengrwn
<i>Balaenoptera acutorostrata</i>	Morfil pigfain
<i>Hyperoodon ampullatus</i>	Morfil trwyn potel
<i>Grampus griseus</i>	Dolffin Risso
<i>Delphinus delphis</i>	Dolffin cyffredin
<i>Balaenoptera borealis</i>	Morfil asgellog sei
<i>Stenella coeruleoalba</i>	Dolffin rhesog
<i>Lagenorhynchus albirostris</i>	Dolffin pigwyn
<i>Lagenorhynchus acutus</i>	Dolffin ystlyswyn
Creaduriaid morfilaidd crwydrol posibl	
<i>Delphinapterus leucas</i>	Morfil gwyn
<i>Mesoplodon densirostris</i>	Morfil gylfinog Blainville
<i>Balaenoptera musculus</i>	Morfil asgellog glas
<i>Balaenoptera mysticetus</i>	Morfil asgellog glas
<i>Ziphius cavirostris</i>	Morfil gylfinog Cuvier
<i>Pseudorca crassidens</i>	Coegleiddiad
<i>Lagenodelphis hosei</i>	Dolffin Fraser
<i>Mesoplodon europaeus</i>	Morfil gylfinog Gervais
<i>Peponocephala electra</i>	Morfil pen pwmpen
<i>Monodon monoceros</i>	Morfil unicorn
<i>Eubalaena glacialis</i>	Morfil y Basgiaid
<i>Kogia brevicepsa</i>	Morfil sberm lleiaf
<i>Mesoplodon bidens</i>	Morfil gylfinog Sowerby
<i>Physeter macrocephalus</i>	Morfil sberm
<i>Mesoplodon mirus</i>	Morfil gylfinog True
<i>Odobenus rosmarus</i>	Morlo ysgithrog



**Cyfoeth
Naturiol**
Cymru
**Natural
Resources**
Wales

Cyhoeddwyd gan:
Cyfoeth Naturiol Cymru
Tŷ Cambria
29 Heol Casnewydd
Caerdydd
CF24 0TP

0300 065 3000 (Llun-Gwe, 8am – 6pm)

ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

(h) Cyfoeth Naturiol Cymru

Cedwir pob hawl. Gellir atgynhychu'r ddogfen hon gyda chaniatâd
Cyfoeth Naturiol Cymru